Tŷ Afon, Heol Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad ar yr adolygiad porth, er mwyn galluogi sefydliadau i gael eu dynodi'n awtomatig

Dyddiad: 25 Awst 2017
Cyfeirnod: W17/24HE
At: Sefydliadau rheoledig
Sefydliadau sy'n awyddus i gael eu dynodi'n awtomatig
Partïon eraill sydd â diddordeb
Ymateb erbyn: 06 Hydref 2017
Cyswllt: Enw: Nicola Hunt
Rhif Ffôn: 029 2085 9735
E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar sut caiff adolygiad porth ei ddefnyddio, i gael ei gyflawni gan sefydliadau sy'n awyddus i wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad er mwyn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dylid cyflwyno ymatebion erbyn **6 Hydref 2017**.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch gwahanol, e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar sut caiff adolygiad porth ei ddefnyddio, i gael ei gyflawni gan sefydliadau sy'n awyddus i wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad er mwyn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Dylid cyflwyno ymatebion erbyn **6 Hydref 2017**.

Cefndir

2. Ym mis Ebrill 2016 cyhoeddodd CCAUC ei ymgynghoriad ar y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru drwy gylchlythyr W16/14HE. Roedd y Cylchlythyr yn nodi, yn Lloegr, fel rhan o'r model gweithredol diwygiedig o ran asesu ansawdd, mai un porth fyddai ar gael er mwyn cael mynediad i'r system addysg uwch (AU) sy'n cael ei ariannu gan y cyhoedd, a chyfnod 'prawf' neu 'ddatblygiadol' o fonitro, ymgysylltu a chraffu agosach ar gyfer yr ymgeiswyr diweddar hynny, neu ar gyfer darparwyr mae angen hyn arnynt am resymau eraill. Yng Nghymru, byddai'r trefniadau ar gyfer dynodiad awtomatig a phenodol er mwyn sicrhau mynediad at gymorth i fyfyrwyr yng nghyd-destun Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn mynd i'r afael â hyn.

3. Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd CCAUC ganlyniadau'r ymgynghoriad drwy gylchlythyr W16/29HE. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y dylai'r trefniadau yng Nghymru barhau i fod yn gyson â'r dull ledled y DU ond gan gydnabod y cyd-destun gwahanol yng Nghymru. Roedd yr ymatebion hefyd yn awgrymu y dylai'r Fframwaith Asesu Ansawdd barhau'n hyblyg er mwyn addasu i'r datblygiadau yng Nghymru ac y dylai'r prosesau geisio lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau.

4. Gan gadw hyn mewn cof, cadwodd CCAUC y dewis i Gymru gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu proses porth fel rhan o'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer asesu ansawdd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae modd gweld rhagor o fanylion am sut mae prosesau sicrhau ansawdd yn cyd-fynd â'r Fframwaith cyffredinol ar wefan CCAUC.

5. Mae Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC wedi cynnig cyngor ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn.

Y broses o ddynodi AU yng Nghymru a mynediad at gymorth i fyfyrwyr

6. O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (y Ddeddf AU)[1], mae gan CCAUC ddyletswyddau statudol yng nghyswllt y broses o gymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad ddangos i CCAUC eu bod yn sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac yn elusennau. Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch nad ydynt yn brifysgolion wedi'u ffurfio gan

[1] Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Siarter Frenhinol, yn gorfforaeth addysg uwch nac yn gorfforaeth addysg bellach gael eu dynodi gan Lywodraeth Cymru fel sefydliad at ddibenion y Ddeddf AU.[2]

7. Ar ben hynny, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais am gynllun Ffioedd a Mynediad ddarparu gwybodaeth am ansawdd eu haddysg, hyfywedd ariannol y sefydliad, trefniadau'r sefydliad a sut mae'n rheoli ei faterion ariannol.[3] Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yng nghanllaw Cynllun Ffioedd a Mynediad CCAUC.[4] Bydd sefydliadau a chanddynt Gynllun Ffioedd a Mynediad wedi'i gymeradwyo yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr israddedig llawn amser.

8. Mae dynodiad penodol yn caniatáu cyrsiau llawn amser a rhan-amser gan ddarparwyr AU heb gydnabod dynodiad awtomatig at ddibenion mynediad i gymorth i fyfyrwyr. Caiff ceisiadau am ddynodiad penodol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fesul achos; rhaid i'r ymgeiswyr fodloni meini prawf Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y cânt eu dynodi ar gyfer cyrsiau penodol. O safbwynt ansawdd, mae'n rhaid i'r sefydliadau hynny sy'n gwneud cais am ddynodiad penodol ar hyn o bryd gyflawni adolygiad ansawdd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) neu gorff arall sydd ar y Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch.

9. Mae'n debyg y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC yn y dyfodol roi'r broses dynodi penodol ar waith a chyflwyno argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch ceisiadau am ddynodiad penodol. Byddai hyn yn galluogi CCAUC i gysoni'r gweithdrefnau ar gyfer dynodi awtomatig a phenodol pan fydd y broses drosglwyddo yn cael ei rhoi ar waith.

Yr Adolygiad Porth i ddarparwyr newydd

10. Ac ystyried bod dynodi awtomatig yn caniatáu i sefydliadau gael mynediad at gyllid cyhoeddus drwy gymorth i fyfyrwyr ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg uwch, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae'n bwysig bod proses y porth yn drylwyr a chadarn.

11. Mae'r gwaith o ddarparu addysg uwch yng Nghymru yn gweithredu yng nghyd-destun system y DU, ar y cyd yn benodol â llifoedd mawr o fyfyrwyr a staff dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod addysg uwch Cymru o gystal safon ag addysg uwch Lloegr o leiaf, ac yn cael ei ystyried felly. Ni fyddai er lles myfyrwyr, na sefydliadau, i ofynion sicrhau ansawdd Cymru fod yn llai trylwyr na rhai Lloegr, ar gyfer unrhyw sefydliad.

---

[2] Dynodi yn sefydliad o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru
[3] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[4] CCAUC, Canllaw i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad 2018/19

12. Am y rheswm hwn, mae CCAUC yn ystyried mai mabwysiadu a gweithredu dull yr adolygiad porth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (ar gyfer darpariaeth AU yng Nghymru) yw'r llwybr mwyaf priodol i sefydliadau fodloni'r gofynion sicrhau ansawdd er mwyn gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod safonau academaidd ledled y DU yn cael eu cynnal. Wrth wneud hynny, mae angen i CCAUC hefyd sicrhau bod y prosesau sy'n cael eu mabwysiadu yn bodloni gwahanol ofynion y Ddeddf AU yng Nghymru, yn ogystal â'r amcanion polisi addysg uwch sydd wedi'u datganoli.

13. Cynigir y camau canlynol o ran sicrhau ansawdd, er mwyn i gyrsiau israddedigion llawn amser sefydliadau newydd gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

14. Byddai'n rhaid i sefydliad sicrhau'r canlynol:-
    i. Darparu cadarnhad ysgrifenedig i CCAUC am ei fwriad i wneud cais am adolygiad porth o'i ddarpariaeth i israddedigion.
    ii. Ymgymryd â gwiriad ariannol gan CCAUC, cyn i'r sefydliad hwnnw gomisiynu adolygiad porth. Byddai hyn yn rhoi syniad o allu'r sefydliad i fodloni gofynion ariannol cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.
    iii. Comisiynu adolygiad porth gan gorff wedi'i bennu gan CCAUC, sef yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar hyn o bryd. Mae disgwyl i sefydliadau rheoledig a heb eu rheoleiddio dalu am yr adolygiad allanol ac felly'r sefydliad sy'n gwneud cais am yr adolygiad fydd yn talu am gostau'r adolygiad porth. Os bydd sefydliad yn cwblhau adolygiad porth yn llwyddiannus, byddai'n cael ei ystyried fel sefydliad sy'n bodloni'r gofynion ansawdd er mwyn gwneud cais am ddynodiad penodol. Byddai dynodiad penodol yn galluogi myfyrwyr i gael gafael ar gymorth i fyfyrwyr israddedig llawn amser ar gyfer cyrsiau AU a enwir.
    iv. Comisiynu ail adolygiad porth bedair blynedd yn ddiweddarach, er mwyn dangos ei fod yn bodloni gofynion sicrhau ansawdd CCAUC cyn gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Mae'r broses hon, gan gynnwys amseru'r ail adolygiad porth, yn cyd-fynd â'r dull presennol o ddod yn ddarparwr wedi ennill ei blwyf yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Byddai hyn hefyd yn darparu sicrwydd i CCAUC bod y ddarpariaeth AU yn gynaliadwy, gyda thystiolaeth o hanes clir, ac yn bodloni safonau sylfaenol y DU o ran ansawdd.
    v. Gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad ar ôl ail adolygiad porth llwyddiannus. Wrth gyflwyno cais, byddai angen i'r sefydliad ddangos ei statws fel elusen, yng Nghymru, yn darparu addysg uwch, yn ogystal â chadarnhau ei fod yn bodloni gofynion sicrwydd eraill, fel y nodir uchod.

15. Mae swyddogion CCAUC wedi cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cysoni gofynion sicrhau ansawdd ar gyfer dynodiad penodol ac awtomatig o ran darpariaeth i israddedigion llawn amser. Nod y gwiriadau sicrhau ansawdd yw darparu amddiffyniad wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus a sicrhau bod darpariaeth addysg uwch yng Nghymru yn

bodloni safonau'r DU, a thrwy hynny amddiffyn buddiannau myfyrwyr. Rydym yn ystyried bod y broses uchod yn bodloni'r nodau hyn.

16. Bydd ein cynigion yn caniatáu i CCAUC gyflawni ei gyfrifoldebau o ran sicrhau ansawdd dan y Ddeddf AU, yn unol ag egwyddorion y Fframwaith Asesu Ansawdd, heb roi baich diangen ar sefydliadau. Mae'r broses o ddileu cymeradwyaeth CCAUC i Gynllun Ffioedd a Mynediad o dan y Ddeddf AU yn broses statudol a hir, nad yw'r un fath â'r ffordd y caiff y gofrestr ei rhoi ar waith yn Lloegr.

17. Serch hynny, bydd ein cynigion yn sicrhau rhywfaint o gysondeb rhwng Cymru a Lloegr/Gogledd Iwerddon o ran y trothwy sicrhau ansawdd ar gyfer cael mynediad i gymorth i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch. Bydd yn hwyluso cydnabyddiaeth ar y cyd o broses sicrhau ansawdd yr ymgymerwyd â hi gan sefydliad wrth ymuno â'r system cymorth i fyfyrwyr yn y naill wlad neu'r llall.

Cwestiwn 1: A fydd y broses arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd i CCAUC a Llywodraeth Cymru o ran ansawdd addysg uwch yng Nghymru?

Cwestiwn 2: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi yn sgil broses yr adolygiad porth?

18. Byddai proses yr adolygiad porth yn golygu addasu methodoleg Ymweliad Adolygu Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) o ran adolygiadau porth yn Lloegr/Gogledd Iwerddon i gyd-fynd â'r Fframwaith Asesu Ansawdd a'r cyd-destun rheoleiddiol yng Nghymru.

19. Mae prif elfennau'r Ymweliad Adolygu Ansawdd y byddai angen eu newid ar gyfer Cymru fel a ganlyn:
    - Cynnwys cyd-destun priodol i Gymru, gan gynnwys Fframwaith Asesu Ansawdd a Deddf AU (Cymru) 2015;
    - Disodli gwybodaeth am ddod yn ddarparwr wedi ennill ei blwyf yn Lloegr gyda gwybodaeth am ddynodiad penodol ac awtomatig yng Nghymru;
    - Cydnabod mai CCAUC fyddai'r corff fyddai'n craffu ar y sefydliadau bob blwyddyn;
    - Cadarnhau y byddai angen i'r QAA allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg;
    - Cadarnhau y byddai'r sefydliad yn talu am yr adolygiad;
    - Diweddaru'r gofynion rheoliadol sylfaenol i fod yn berthnasol i ofynion Cymru;
    - Egluro y byddai CCAUC yn ymgymryd â'r broses o graffu ar gynaliadwyedd ariannol, dulliau rheoli a llywodraethu'r sefydliad;
    - Cydnabod y byddai modd i sefydliadau ddechrau ymgysylltu â'r broses unrhyw adeg o'r flwyddyn;
    - Diwygiadau i esbonio'r prosesau yng Nghymru, nad ydynt yn cynnwys adolygiad darparwr blynyddol yn yr un modd â Lloegr;

- Cadarnhau y byddai gan y tîm adolygu dri adolygwr (gan gael gwared ar y dewis o ddau) gan gynnwys cynrychiolydd myfyrwyr;
- Cadarnhau y byddai angen i'r tîm allu cyfathrebu yn Gymraeg os dyma fyddai dewis iaith y sefydliad / undeb myfyrwyr;
- Cydnabod rôl Estyn wrth arolygu darpariaeth AB;
- Esbonio sut byddai darparwyr yn cael eu briffio (efallai na fydd digon o ddarparwyr i gynnal gweminar);
- Esbonio'r gyfres ddata fydd yn cael ei darparu gan CCAUC am bob sefydliad;
- Cadarnhau y byddai'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyfieithu ac y byddai angen ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cwestiwn 3: ***A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi o ran llawlyfr yr Ymweliad Adolygu Ansawdd, gan gydnabod y bydd y dull yn parhau'r un fath yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond gyda newidiadau i adlewyrchu'r gwahanol gyd-destun a'r sefyllfa statudol yng Nghymru?***

Cwestiwn 4: ***A oes gennych ragor o sylwadau am y dull arfaethedig?***

Cwestiwn 5: ***A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol neu unrhyw ganlyniad anfwriadol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?***

Rhagor o wybodaeth / ymatebion

20. Dylid anfon ymatebion at Nicola Hunt (ffôn 029 2085 9735; e-bost nicola.hunt@hefcw.ac.uk) erbyn **6 Hydref 2017**.

Asesu effaith ein polisïau

21. Rydym wedi cynnal proses sgrinio asesu effaith i helpu i ddiogelu rhag camwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith y polisïau ar yr iaith Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru a'r effeithiau posib o ran cyflawni'r nodau sydd wedi'u gosod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch â equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.